# CYFARFOD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD RHWNG AELODAU PWYLLGOR PENSIYNAU CYNGOR GWYNEDD A CHYNRYCHIOLWYR Y CYFLOGWYR A'R UNDEBAU, 31.07.13

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr W Tudor Owen, Stephen Churchman, Trevor Edwards, Peredur Jenkins (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a'r Cynghorydd H. Eifion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Hefyd yn bresennol -** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Gareth Jones (Rheolwr Pensiynau), Nicholas Hopkins (Dirprwy Reolwr Pensiynau), Geraint Owen (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol), Delyth Jones Thomas (Cyfrifydd Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys), Marina Parry Owen (Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau), Bronwen Williams (Cymhorthydd Pensiynau) Gwennan Williams (Swyddog Pensiynau), Jennifer Mowle (Cymhorthydd Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu) (Cyngor Gwynedd);
Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru), Jo Worrall (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Lynn Patterson (Cynnal), Tony Walter a Phil Brooks (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), a Matt Woodman (Hymans Robertson)

**Ymddiheuriadau -** Y Cynghorwyr Dafydd Meurig, Peter Read, John P. Roberts (Cyngor Gwynedd)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd W Tudor Owen yn gadeirydd am y cyfarfod.**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Stephen Churchman yn is-gadeirydd am y cyfarfod.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

## 4. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cynghorydd W Tudor Owen. Cyflwynwyd y swyddogion i bawb. Llongyfarchwyd Dilwyn O Williams ar ei benodiad fel Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd. Diolchwyd iddo am ei waith gyda'r Gronfa Bensiwn.

## 5. Y GRONFA BENSIWN

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol adroddiad blynyddol y Cynllun Pensiwn am 2013/14 oedd yn cynnwys:

- adolygiad y flwyddyn
- tueddiadau diweddar
- adroddiad rheoli yn crynhoi prif nodweddion gweinyddu'r cynllun
- sefyllfa actiwaraidd y gronfa
- trefniadau gweinyddol a chadw
- amlinelliad o'r pwerau buddsoddi a'r dull o reoli buddsoddiadau
- crynodeb o'r perfformiad buddsoddi
- datganiad o egwyddorion buddsoddi a strategaeth cyllido
- fframwaith sgiliau a gwybodaeth
- manylion y strwythur rheoli
- ystadegau aelodaeth
- datganiad o gyfrifon 2013/14 a nodiadau i'r cyfrifon

Cyflwynwyd hefyd daflen wybodaeth am y Gronfa Bensiwn yn crynhoi cefndir y Gronfa a'r prif ffeithiau.

Rhoddwyd sylw penodol i brif faterion yr adroddiad sef:

- Gweinyddu Pensiynau.
  Nodwyd bod y drefn pwlio cyflogwyr bach wedi dod i ben a chyflwynwyd polisi yswiriant salwch yn ei le. Newidiwyd hefyd y dull o adennill diffygion. Yn weithredol o Ebrill 2014, bydd yr actiwari yn adnabod diffygion ar delerau arian parod yn hytrach na chanran o'r gyflogres. Golygai hyn y byddai'r swm a adenillwyd yn parhau yn gyson, beth bynnag fydd lefelau aelodaeth yn y dyfodol.

- Cyfeiriwyd at newidiadau deddfwriaethol yn y maes ac at y drefn o gyflwyno rheoliadau trosglwyddo Diolchwyd i staff yr Uned Bensiynau am eu gwaith o gyfrifo amcangyfrifon ymddeoliad â llaw gan fod y fersiwn derfynol o'r rheoliadau trosglwyddo yn cael eu cyflwyno yn hwyr yn y flwyddyn.

- Nodwyd bod nifer pensiynau taladwy'r Gronfa Bensiwn, ers ad-drefnu Cymru 1996, wedi cynyddu o 5043 i 8323 (cynnydd o 65.04%). Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd cynnydd mawr yn nifer yr aelodau gweithredol ac aelodau gohiriedig.

  Cyfeiriwyd at y sefyllfa actiwaraidd. Prif amcan cyllido'r Gronfa yw gofalu bod asedau'r Gronfa yn ddigonol ar gyfer talu buddion aelodau fel y maent yn cronni. Pan fydd asedau'r Gronfa yn hafal i'w hymrwymiadau, dywedir bod lefel cyllido'r Gronfa yn 100%. Yn yr adroddiad prisiant ar gyfer Mawrth 2013, roedd lefel cyllid Cronfa Bensiwn Gwynedd yn 85% (yn well a'r gyfartaledd, na lefel cyllido Cymru a Lloegr). Derbyniwyd asesiad o sefyllfa'r Gronfa wrth gymharu gyda chronfeydd eraill llywodraeth leol ar sail gyson a dangosodd bod y lefel cyllido wedi gwella i 89%. Cododd y safle Gronfa Gwynedd o 16 i 10 allan o 88 cronfa ar draws Cymru a Lloegr. Mae hyn yn dangos bod y tybiaethau a defnyddir ar gyfer ein prisiad ni yn fwy darbodus na'r cyfartaledd holl cronfeydd llywodraeth leol.

- Yn erbyn y meincnod, gorberfformiodd y Gronfa 1.9% yn ystod y flwyddyn ariannol 2013/14. Llwyddodd y Gronfa i gael enillion o 8.2% yn erbyn y

meincnod o 6.3%. Yn ychwanegol, dros gyfnod o dair blynedd mae'r Gronfa wedi gorberfformio yn erbyn y meincnod gydag enillion o +6.7% o'i gymharu ag enillion y meincnod o 6.5%.

Cymerodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cyfle i ddiolch i holl staff yr Uned Bensiynau a'r Uned Buddsoddi am eu hymdrech arbennig i gynnal Cronfa gynaliadwy. Diolchodd hefyd i'r Pwyllgor Pensiynau am eu cefnogaeth ac i'r cyflogwyr am eu cymorth a'u cefnogaeth dros y blynyddoedd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr a'i staff am adroddiad eglur a chynhwysfawr.

Mewn ymateb i'r adroddiad, ac yn benodol am fwriad Llywodraeth San Steffan ynglyn â llywodraethu cronfeydd, mynegodd y Pennaeth Cyllid y byddai cyfnod ymgynghori yn debygol o gael ei gynnal yn mis Awst. Yn dilyn trafodaethau cychwynnol gydag aelodau'r Pwyllgor Pensiynau, ymddengys y bydd Gwynedd yn argymell i'r Llywodraeth roi'r hawl i sefydlu un Bwrdd pensiynau i graffu trefniadau holl gronfeydd Cymru fel ffordd ymlaen. Manteisiodd y Pennaeth Cyllid ar y cyfle i ddiolch i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol am ei waith gyda'r Gronfa Bensiwn.

Ymatebodd cynrychiolydd Hymans Robertson bod y Gronfa wedi cael blwyddyn dda ac wedi ei rhedeg a'i rheoli yn effeithiol.

Mewn ymateb i'r nifer isel iawn o gyflogwyr oedd yn bresennol yn y cyfarfod, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai pwrpas cynnal cyfarfod blynyddol yw rhoi cyfle i gyflogwyr herio'r adroddiad. Cwestiynwyd yr angen i newid y drefn.
Awgrymwyd y dylid cynnal ymgynghoriad gyda'r holl gyflogwyr i geisio sylwadau i sefydlu trefn mwy effeithiol fuasai yn gwella presenoldeb ac yn ennyn diddordeb.

**PENDERFYNWYD DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN AM 2013/14.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 2.50pm.